**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Ebrill 30ain 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones

Presennol: Elen Edwards (Is Gadeirydd), Diane Roberts, Tecwyn Evans, Ann Vaughan, Ian Griffith, Gwynfor Davies, Gwyn Williams, Gerwyn Davies, Emlyn Williams, Ifor Edwards, Cyng Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

25.1 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Diane Roberts, Ann Vaughan a Gwyn Williams ddiddordeb yn Eitem 7 Cais Ariannol – Amgueddfa Syr Henry Jones.

25.2 GETHIN GEORGE – yn anffodus ni allai Mr George fynychu'r cyfarfod i drafod yr arhosfannau bws yn yr ardal. PENDERFYNWYD i drefnu cyfarfod eto.

25.3 COFNODION – cafwyd golwg ar gofnodion cyfarfod 26 Mawrth a 15 Ebrill a chynigwyd ac eilwyd a'u derbyn fel cofnod cywir.

25.4 TOILEDAU LLANGERNYW – derbyniwyd adroddiad gan Mr Steve Teale yn nodi bod pethau yn symud ymlaen o ochr Conwy, h.y. bod dogfennau yn barod i fynd i gyfarfod y Cyngor Sirol, bod costau'r prosiect i gyd yn gynwysedig yn y gyllideb, bod yr adran adeiladau wrthi'n gwneud y gwaith trosglwyddo, y Cyngor yn mynd i gysylltu ag adeiladwyr am brisiau, rhoi Grŵp Toiledau Llangernyw ar y Cynllun Toiledau Cymunedol. Adroddodd Dilwyn Roberts iddo ef gael gair a'r swyddog hefyd.

25.5 CYFLOG CLERC – penderfynwyd i'w roi ar yr Agenda nesaf.

25.6 GWEITHIWR I'R WEFAN – penderfynwyd i'w drafod y tro nesaf.

25.7 WAL WEDI DISGYN YNG NGWYTHERIN – nid oedd ymateb wedi dod gan y Cyngor Sir felly PENDERFYNWYD i gysylltu eto. Deellir bod perchennog y Lion Inn wedi cysylltu hefyd. Hefyd i holi oedd ymateb ynglŷn a'r coed yn gor dyfu yng nghanol y llan.

25.8 COEDEN YWEN – y Clerc i gysylltu â Kevin Roberts eto.

25.9 CWRS AR Y CYD – SLCC AC UN LLAIS Cymru – PENDERFYNWYD i'r Clerc fynychu'r cwrs yn Venue Cymru, Llandudno ar 15fed Mai ac i holi am grant gan Partneriaeth Wledig Conwy.

25.10 MYNWENT GARNEDD – gan nad oedd carreg ar fedd John Edward Davies, Gors PENDERFYNWYD anfon at y teulu i fynegi ein siom ac i weld os oeddynt am osod carreg yn fuan.

25.11 MATERION CYNLLUNIO
25.11.1 CAIS RHIF 0/40659 Estyniad deulawr i annedd yn Maesol, Llangernyw gan Dr S Dalton. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

25.12 YSWIRIANT Y CYNGOR – PENDERFYNWYD i yswirio gydag AON am y gost o £375.12

25.13 CAIS ARIANNOL AMGUEDDFA SYR HENRY JONES – derbyniwyd cais am gyfraniad at yr Amgueddfa a chais i Gronfa Bro Cernyw am arian i gefnogi cyflogi gweithiwr. PENDERFYNWYD i gyfrannu £500 o Gronfa Bro Cernyw ac i ysgrifennu i esbonio na allwn roi mwy o arian ar hyn o bryd ond bod croeso iddynt wneud cais i'r Gronfa ddiwedd Hydref gan amgáu mwy o fanylion a thrawsdoriad o'r costau.

25.14 FFORWM CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – cafwyd adroddiad o'r cyfarfod a'r cyfarfod clercod gan y Clerc a'r Cadeirydd. Roedd Winston Roddick, Comisiynydd yr Heddlu yn bresennol a chafwyd cyflwyniad gan John Eastwood ar Ailgylchu'r Cyngor.

25.15 SOCIETY OF LOCAL COUNCIL CLERKS – PENDERFYNWYD ymaelodi eto eleni am £76

25.16 CYNGOR GWASANAETHAU GWIRFODDOL CONWY – PENDERFYNWYD i ymaelodi am gost o £15. Angen i'r Clerc holi pam bod yr enw CGGC wedi mynd o'r teitl ac mai dim ond CVSC sy'n ymddangos.

25.17 CYNGHRAIR CYMUNEDAU CYMRAEG – derbyniwyd cais i ni arwyddo o blaid y ddogfen 'Cynllunio er budd ein cymunedau' yn seiliedig ar fil Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. PENDERFYNWYD i anfon ein cefnogaeth. Hefyd roedd cyfarfod nesaf y Gynghrair yn cael ei gynnal yn ystod Eisteddfod yr Urdd Y Bala.

25.18 CYFARFOD BLYNYDDOLY CYNGOR – bydd yn cael ei gynnal ar 21 Mai a PHENDERFYNWYD i wahodd un o'r canlynol ddod i siarad: Erin Rosssington (Taith i Batagonia), Gethin George ac Antoinette Sandbach.

25.19 MATERION ERAILL
25.19.1 Tap dŵr y Fynwent yn anodd ei gau – cynigiodd Tecwyn Evans fynd i'w olwg.
25.19.2 Twll yn y ffordd ger pont ger Rhos Isaf, Llansannan
25.19.3 Gofynnodd Tecwyn Evans a fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon cymryd gofal o Fynwent Capel Gwytherin gan fod y capel wedi cau. Pleidleisiwyd o blaid cymryd y fynwent i'n gofal ond i Tecwyn holi a oedd modd cael cyfraniad tuag at y torri.
25.19.4 Gwter ger Nant Mawr, Llangernyw eisiau ei lanhau.
25.19.5 Twll yn y ffordd o dan Buarth Cerrig.
25.19.6 Dim wedi ei wneud ynglyn a'r dŵr sy'n sefyll ger Pen Cefn, Gwytherin.
25.19.7 Angen sgubo ffordd uchaf Pandy Tudur.
25.19.8 Angen holi Dei Evans faint oedd yn godi am hel gwair yn y fynwent – yr ysgrifen ddim yn glir.

25.20 BILIAU

| | |
|---|---|
| Hywel Evans (Cylchlythyr) | £6 |
| Dei Evans (Toriad Cyntaf Mynwentydd) | £300 |

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion Gwyn Williams............. Dyddiad....21/5/14.................*

Community Council Meeting was held on Wednesday , April 30th 2014 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw

Apologies : Gwydion Jones

Present : Elen Edwards (Vice Chair) , Diane Roberts , Tecwyn Evans , Ann Vaughan, Ian Griffith , Gwynfor Davies , Gwyn Williams , Gerwyn Davies , Emlyn Williams , Ifor Edwards , Cllr Dilwyn Roberts & Clerk .

25.1 DECLARATION - Diane Roberts ,Gwyn Williams and Ann Vaughan expressed interest in Item 7 Financial Application - Sir Henry Jones Museum .

25.2 GETHIN GEORGE - Mr. George unfortunately could not attend the meeting to discuss the bus stops in the area . RESOLVED to arrange a further meeting .

25.3 Minutes - minutes of March 26 and April 15 were discussed and it was proposed and seconded and accepted as a true record .

25.4 LLANGERNYW TOILETS - report received from Mr Steve Teale notes that things are moving forward on Conwy Council's part , ie documents are ready to go to a meeting of the County Council , that all project costs are included in the budget , the buildings department involved in the transfer , the Council is going to contact builders for quotes , include the Llangernyw Toilets Group in the Community Toilet Scheme . Cllr Dilwyn Roberts stated that he also spoke to the officer.

25.5 CLERK SALARY - decided to put on the next agenda .

25.6 WEBSITE MANAGER - decided to discuss in next meeting.

25.7 FALLEN WALL in GWYTHERIN - no response had been received from the County Council therefore RESOLVED to contact again . The owner of Lion Inn understood to have contacted also . In addition the Clerk to ask if there was any feedback about the over grown trees in the middle of the village.

25.8 YEW TREE - The Clerk to contact Kevin Roberts again .

25.9 JOINT COURSE - SLCC AND ONE VOICE Wales - RESOLVED the Clerk attend the course at Venue Cymru on May 15 and ask for a grant from the Conwy Rural Partnership .

25.10 GARNEDD CEMETERY - as there was no stone on the grave of John Edward Davies , Gors RESOLVED to contact the family to express our disappointment and to see if they were above to set a stone soon .

25.11 PLANNING MATTERS
25.11.1 APPLICATION NUMBER 0 / 40 659 Two storey extension to dwelling Maesol , Llangernyw by Dr S Dalton . RESOLVED to support the application .

25.12 COUNCIL INSURANCE - RESOLVED to insure with AON at the cost of

£375.12

25.13 GRANT APPLICATION SIR HENRY JONES MUSEUM - received a request for a donation to the Museum and a request for money from Bro Cernyw Fund to support employment of an employee. RESOLVED to donate £ 500 from Bro Cernyw Fund and to write to explain that we can not give more money at the moment but they are welcome to apply for the grant in late October enclosing more details and a cross section of the costs.

25.14 TOWN AND COMMUNITY COUNCIL FORUM - there was a report of the meeting and the clerks meeting by the Clerk and Chairman. Winston Roddick , Police Commissioner was present and there was a presentation by John Eastwood on the Council Recycling Programme .

25.15 SOCIETY OF LOCAL COUNCIL Clerks - RESOLVED to join again this year at a cost of £ 76

25.16 CONWY VOLUNTARY SERVICES COUNCIL - RESOLVED to apply for membership at a cost of £ 15. Need to ask why the name CGGC (Welsh version) has gone from the title and that only CVSC is appearing.

25.17 WELSH COMMUNITIES LEAGUE - received a request to sign in favour of the document ' Planning for the benefit of our communities ' based on a bill by Welsh Language Society . RESOLVED to send our support . Also the next meeting of the League will be held at the Urdd Eisteddfod in Bala .

25.18 ANNUAL GENERAL COUNCIL MEETING - will be held on May 21 and RESOLVED to invite one of the following to talk : Erin Rosssington ( Trip to Patagonia ) , Gethin George and Antoinette Sandbach .

25.19 OTHER MATTERS
25.19.1 Water tap is difficult to close in the Cemetery - Tecwyn Evans offered to take a look .
25.19.2 Pothole near a bridge near Rhos Isaf , Llansannan
25.19.3 Tecwyn Evans asked whether the Community Council would be willing to take care of Gwytherin Chapel Cemetery as the chapel has closed . A vote in favour of taking care of the cemetery but to question whether it was possible to receive a contribution towards cutting the grass from Presbyterian Church of Wales.
25.19.4 Gutter near Nant Mawr , Llangernyw needs cleaning.
25.19.5 Pothole near Buarth Cerrig.
25.19.6 Nothing has been done about the standing water near Pen Cefn, Gwytherin
25.19.7 Top road Pandy Tudur needs sweeping.
25.19.8 Need to ask Dei Evans how much it cost for clearing the grass in the cemetery - the writing was not clear.

25.20 BILLS
Hywel Evans ( Newsletter ) £ 6
Dei Evans (Cemetery First Cut ) £ 300
The meeting ended at 9.15 pm.
Minutes were approved .........Gwyn Williams.................... Date 21/5/14........